ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

Llawlyfr Addoli
Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig
2022-23

Cynnwys

Mae Addoli yn Ganolog 3
Yr Her 3
Gras nid Deddf 3
Nid Fi sy'n Bwysig 4
Addoli mewn Sefydliad Hyfforddi 4
Egwyddorion Cyffredinol 5
Iaith 5
Beth i'w Wisgo? 5
Hygyrchedd 6
Iaith Gynhwysol 6
Amrywiaeth 6
Y Gwasanaethau Dyddiol 7
Enghraifft 1 8
Enghraifft 2 13
Gall y cyfarwyddiadau helpu 16
Adnoddau 17
Addoli yn y Gymuned Amser-llawn 17
Trefnu Addoliad 17
Ein Patrwm Addoli 18
Presenoldeb 19
Defnyddio'r Capel 19

Mae Addoli yn Ganolog

Mae addoli yn ganolog i bwy ydyn ni fel pobl, i'n galwedigaeth fel disgyblion, i'n bywyd cymunedol ac i'n gwasanaeth i Dduw yn ein byd. I'r mwyafrif ohonom gall addoli fod yn ddwys ac yn wefreiddiol, yn fan cyfarfod â'r Duw byw, man gonestrwydd, man trawsnewid. Ar ben hyn, mae angen cofio hefyd nad ni, ein dyheadau a'n dewisiadau ni'n hunain yw canolbwynt addoli, ond yn hytrach Duw, a rhoi gogoniant i Dduw. Does dim rhaid i'r ddwy agwedd hyn – yr hyn y mae addoli'n ei wneud i ni a throson ni a'r ffaith mai Duw yw canolbwynt addoli – wrthdaro â'i gilydd. Addoli yw 'ein dyletswydd' a'n 'llawenydd' hefyd.

Bydd sawl cymuned addoli ffurfiannol inni yn ystod ein cyfnod hyfforddi, gan gynnwys ein lleoliad, ond un agwedd bwysig fydd addoli gyda'n gilydd yn y gymuned amser llawn ac yn y cyfnodau preswyl. Dyma lle mae'n **cymuned** yn dod at ei gilydd a hyd yn oed yn uno â'n gilydd. Mae addoli yn ein tynnu i mewn ac at ein gilydd er mwyn ein hanfon allan yn llawn gweledigaeth, grym ac anogaeth.

Ac yr ydym ni i gyd, heb orchudd ar ein hwyneb, yn edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd ac yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef. A gwaith yr Arglwydd, yr Ysbryd, yw hyn.

2 Corinthiaid 3:18

Yr Her

Daw pawb yng nghymuned Gweinidogaeth Ffurfiannol Athrofa Padarn Sant o wahanol ddisgwyliadau, dulliau a thraddodiadau addoli a chawn ein galw i weinidogaethu mewn amryw o gyd-destunau yn y dyfodol. Un o'r meini prawf rydych chi'n hyfforddi ar ei gyfer yw:

Mae'r ymgeiswyr yn hael eu parch at ehangder ac amrywiaeth y credoau a'r arferion yn yr Eglwys yng Nghymru

Mae ein bywyd addoli gyda'n gilydd yn lle pwysig i ddangos yr haelioni hwn. Felly, mae dwy egwyddor bwysig sy'n berthnasol i'n bywyd gyda'n gilydd yn yr Athrofa:

- '**gras nid deddf'** a
- **'nid fi sy'n bwysig'**.

Gras nid Deddf

Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth (Galatiaid 5:22, 23).

Mae cymaint o bobl wedi cael niwed yn sgil agwedd gyfreithlyd at addoli a theimlo nad ydyn nhw'n 'ddigon da' am nad ydyn nhw'n deall y 'rheolau'. Yn Athrofa Padarn Sant rydym yn ceisio

trin ein gilydd â chariad, caredigrwydd a pharch. Hanfod hyn yw cael gwared ar yr ymdeimlad bod yna 'safon' y gallwn ei defnyddio i fesur ein gilydd – pwy ydym ni i farnu'n un arall? Mae'n hanfodol ein bod yn creu ac yn cynnal diwylliant lle nad yw unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu gwylio neu eu barnu am beidio â chydymffurfio â'r patrwm neu'r arddull addoli 'cywir'. Gall hyd yn oed jôcs 'cyfeillgar' greu diwylliant o ansicrwydd a drwgdybiaeth. Yn yr Athrofa, mae'r ymdeimlad o batrwm a chyfeiriad cyffredinol yn ein haddoli yn cael ei gynnal drwy gyfarfod yn rheolaidd i siarad am ein haddoli a'i gynllunio gyda'n gilydd, a hynny yn y gymuned amser llawn ac i raddau llai yn y cyfnodau preswyl i bawb.

Nid Fi sy'n Bwysig

O ran arwain addoli, mae ein ffocws ni ar y 'gynulleidfa', sef y gymuned rydym yn ei harwain, ar yr hyn a fydd yn cynnig gogoniant i Dduw ac yn eu cynnal a'u bwydo nhw fel unigolion ac fel cymuned. Yn naturiol byddwn yn tynnu ar yr hyn y mae Duw wedi ei roi i ni. Efallai y byddwn am arbrofi hefyd, i roi cynnig ar bethau sy'n newydd inni, i godi syniadau gan bobl eraill. Ond gwnawn hynny mewn modd dilys, fel rhywbeth a wnawn er lles y gymuned, nid am ein bod yn credu y dylen ni, neu am ein bod am 'gynnal' dull gweithredu penodol.

Addoli mewn Sefydliad Hyfforddi

Lle amrywiol iawn yw'r Eglwys yng Nghymru, ac mae ei haddoli'n newid. Mae'n dwyn ynghyd etifeddiaeth y ffydd a'r byd newidiol y mae'n ei wasanaethu. Yn arbennig nawr, pan fyddwch yn gwasanaethu mewn ardaloedd gweinidogaeth/cenhadaeth ac nid mewn eglwysi unigol, yr hyfforddiant gorau y gallwch ei gael yw dod i arfer â chanolbwyntio ar y cwestiwn – beth fydd yn cynnig gogoniant i Dduw ac yn cynnal a bwydo'r gymuned benodol hon ar yr achlysur penodol hwn?

Gan mai un o sefydliadau'r Eglwys yng Nghymru yw Athrofa Padarn Sant a chan fod y mwyafrif mawr o'r 'gynulleidfa' mewn gwasanaeth yn yr Athrofa yn dod o'r Eglwys yng Nghymru, bydd unrhyw ateb i'r cwestiwn 'sut mae arwain addoliad er mwyn cynnig gogoniant i Dduw a chynnal a bwydo'r gymuned benodol hon?' yn cael ei siapio gan ein traddodiad a'n patrymau addoli yn yr Eglwys yng Nghymru ac yn defnyddio'r rheiny. Ond ein rheswm dros wneud hynny yw nid 'fel ordinand mae'n *rhaid* imi ddefnyddio'r ffurfiau hyn' neu hyd yn oed 'fel Gweinidog dan hyfforddiant mae'n *rhaid* imi ddod i arfer â'r ffurfiau hyn', ond 'Dyma'r addoliad a fydd, yn fy marn i, yn helpu'r gynulleidfa hon i addoli Duw'. Gras nid deddf; nid fi sy'n bwysig.

Mae'r rhan fwyaf ohonom hefyd yn ei chael yn anodd addoli wrth arwain addoliad. Nid yw hyn yn wahanol iawn mewn gwirionedd i'r anhawster o arwain addoliad gan wybod y cewch chi adborth. A ninnau'n offeiriaid a gweinidogion byddwn bob amser yn arwain addoliad gan fod yn ymwybodol o bethau eraill hefyd – yn aml mae'r cwestiwn sut mae'r addoliad yn cael ei 'dderbyn' yn cyniwair. Felly, wrth ichi arwain addoliad neu gyfrannu ato yn yr Athrofa, byddwch yn datblygu'ch profiad o sut i ymdrin â'r tensiwn rhwng addoli a bod yn ymwybodol o'r modd y caiff yr addoliad ei dderbyn. Bydd adborth gan diwtoriaid bob amser yn galonogol ac yn eich

helpu i ddod o hyd i ffyrdd o barhau i wella. Mae pob un ohonom yn dysgu – gall tiwtoriaid eu hunain hefyd elwa o gael adborth!

Egwyddorion Cyffredinol

Rydym yn addoli gyda'n gilydd ar gyfnodau preswyl, ac er nad ydynt yn cynnig llawer o gyfle ichi arwain neu gyfrannu, mae egwyddorion cyffredinol ar gael wrth inni gynnig y weinidogaeth hon i'n gilydd.

Iaith

Rydym yn gymuned ddwyieithog, sy'n cael ei ffurfio'n weinidogion i eglwys ddwyieithog sy'n gwasanaethu cenedl ddwyieithog. Mae angen i'n haddoli adlewyrchu hyn.

O ran patrwm bras gallech ddisgwyl i bob gwasanaeth gynnwys elfennau Cymraeg a Saesneg. Ond, rydym yn gweithredu dan ras nid deddf. O ran cyfnodau preswyl, bydd y rhan fwyaf o'n gwasanaethau'n ddwyieithog, ac yn y gymuned amser llawn disgwylir y bydd yna gydbwysedd rhwng y ddwy iaith bob wythnos.

Mae pob un o'n hymgeiswyr yn cael cynnig cwrs ar-lein am ddim er mwyn dysgu Cymraeg. Er hynny, i'r rhai nad ydyn nhw'n siarad dim Cymraeg o gwbl, bydd cyfieithiad o'r hyn sy'n cael ei ddweud ar gael yn y daflen neu ar PowerPoint fel arfer, er y dylen nhw hefyd ddod i arfer â rhai o'r elfennau litwrgaidd mwyaf cyffredin ('Arglwydd gwrando ein gweddi', 'Yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân') heb i'r rheiny gael eu cyfieithu. Mae'r Gymraeg yn iaith ffonetig (yn wahanol i'r Saesneg) felly ni ddylai hyd yn oed dysgwyr pur fod yn nerfus ynglŷn ag ymateb neu ganu yn y Gymraeg. Mae'n siŵr eich bod yn swnio'n iawn!

Beth i'w Wisgo?

Mae amrywiaeth yr 'arddulliau' a'r arferion addoli yn yr Eglwys yng Nghymru yn ymestyn hefyd i wisg litwrgaidd. Er ei bod yn arferol yn yr Eglwys yng Nghymru inni wisgo'n gwisgoedd priodol wrth arwain gwasanaethau, yn enwedig yn y prif wasanaeth ar ddydd Sul, mae yna le sylweddol i amrywiaeth gan ddibynnu ar yr achlysur a'r ymarferwr. Mae hwyrol weddi gorawl, gweddïau'r plwyf, addoliad pob oed, etc. bob un yn gofyn dull unigryw.

Gan hynny, does dim rheol ar wisgoedd litwrgaidd yn Athrofa Padarn Sant. Fel pob agwedd arall ar addoli – yr ymarferion, y caneuon a ddewiswn ac ati – mae'r dillad litwrgaidd yn hefyd yn gofyn i ni gysidro a dirnad yn ofalus effaith ein dewisiadau er mwyn ateb anghenion y gynulleidfa wrth iddyn nhw gydaddoli Duw.

Prif ddiben yr addoli yn Athrofa Padarn Sant, boed yn y capel yng Nghaerdydd ynteu ar gyfnod preswyl, yw addoli Duw ac adeiladu'r gymuned, ond mae hefyd yn lle diogel i roi cynnig ar bethau newydd a magu hyder fel Gweinidogion. I lawer, mae gwisgo'r wisg eglwysig yn brofiad newydd, anghyffyrddus, wrth iddynt ddechrau hyfforddi. Os yw hyn yn wir i chi, efallai y byddai'n werth ichi wisgo ar adegau er mwyn dod yn gyfarwydd ac yn gyffyrddus â gwisg litwrgaidd. I'r sawl sydd wedi hen arfer â gwisgo ac yn anghyfarwydd ag arwain addoliad mewn unrhyw ffordd arall, gall fod yn werth arwain mewn gwisg lai ffurfiol ar adegau. Gan y bydd y

rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn mynd ymlaen i wasanaethu mewn ardaloedd gweinidogaeth/cenhadaeth sy'n fwyfwy amrywiol, bydd hyblygrwydd a hyder wrth arwain addoliad mewn gwahanol gyd-destunau o gymorth mawr i chi yn eich gweinidogaeth yn y dyfodol.

Hygyrchedd

Fel rhan o'n hymrwymiad i wasanaethu anghenion y gymuned, mae'n bwysig bod pob gwasanaeth yn hygyrch i aelodau'r gynulleidfa sydd â dyslecsia, nam ar y golwg a/neu'r clyw, a gwahaniaethau dysgu eraill. Bydd defnyddio meicroffon a phrint bras a chefndir gwyn pŵl mewn taflenni gwasanaeth/sleidiau yn helpu i sicrhau profiad addoli mwy cynhwysol.

Iaith Gynhwysol

Mae'r rhan fwyaf o lawer o lyfrau emynau modern, cyfieithiadau Beiblaidd modern a litwrgi modern yn defnyddio iaith sy'n gynhwysol, hynny yw, iaith nad yw'n rhagdybio, wrth siarad am bobl, mai dynion yw'r 'norm'. Mae'n bwysig bod ein haddoli'n cynnwys pawb ac yn gwerthfawrogi pawb felly cofiwch ofalu peidio â dieithrio gwahanol grwpiau drwy ddefnyddio iaith sy'n eithrio neu'n gwneud rhagdybiaethau di-fudd.

Amrywiaeth

Mae 'gras nid deddf' ac 'nid fi sy'n bwysig' yn bwysig iawn. Yn ystod cyfnodau preswyl, fel arfer bydd gennym amryw o wasanaethau cyffredin a rhywfaint o addoli sy'n fwy creadigol. Mae cyn lleied o 'slotiau' nes na fydd y mwyafrif o'r ymgeiswyr rhan-amser yn cael cyfle i arwain addoliad ar gyfnodau preswyl, er ein bod yn gobeithio y cewch ddigon o gyfle ar leoliad. Y demtasiwn wedyn yw troi pob gwasanaeth yn rhywbeth arbennig ac anghyffredin. Ond, gofynnwn ichi gadw at y cydbwysedd sydd wedi'i daro o ran y ffordd y trefnir yr addoliad. Weithiau, gall gweddi foreol gyffredin ddi-ffwdan fod yn llawer mwy ystyrlon nag unrhyw fath arall o wasanaeth ac mae'n enghraifft dda o 'nid fi sy'n bwysig' ac yn ymwneud â chreu lle i'r gynulleidfa allu addoli'r Duw byw yn wirioneddol. Fel rheol, ar gyfnodau preswyl, bydd pob dydd yn cynnwys un o wasanaethau safonol yr Eglwys yng Nghymru, ac un gwasanaeth mwy creadigol, yn ogystal â gwasanaethau Cymun.

Bydd pob esgobaeth yn ei thro, o dan arweiniad tiwtor, yn cynllunio ac yn arwain yr addoliad ar gyfnod preswyl. Byddai'n dda pe bai aelodau'r gymuned ran-amser yn cymryd mwy o ran na'r aelodau amser llawn. Bydd disgwyl i chi fod yn gyfrifol am bopeth - dyfeisio neu nodi litwrgi, sicrhau bod gan bawb gopïau neu eu bod ar gael ar PowerPoint, cerddoriaeth a cherddorion ac ati (hyd yn oed mynediad i'r fan addoli os yw hyn yn broblem. Mae adnoddau Addoli ar ar dudalen Adnoddau Addoli ar Moodle.

Weithiau byddwn yn defnyddio darlleniadau'r llithiadur, ac weithiau darlleniadau sy'n briodol i thema'r penwythnos.

Y Gwasanaethau Dyddiol

Dyma ganllawiau ar gyfer yr adegau y deuwn at ein gilydd fel cymuned, naill ai ar gyfnodau preswyl ynteu yn y rhaglen amser llawn.

Mae disgyblaeth y foreol a'r hwyrol weddi yn ffordd o osod pob dydd o fewn cyd-destun canmol, ymbilio a myfyrio. Mae'n fodd i gyfeirio'n hunain yn barhaus tuag at Dduw – gan fyfyrio ar ei air, diolch am y rhoddion rydym wedi eu cael ganddo, ac ymddiried i Dduw ein gofalon a'n pryderon beunyddiol. Am y rheswm hwn, mae gan y foreol a'r hwyrol weddi le arbennig yn addoliad dyddiol yr Eglwys yng Nghymru. Tan y 1950au, *Llyfr Gweddi Gyffredin 1664* (1662 yn Saesneg) oedd y norm ar gyfer y foreol a'r hwyrol weddi yn yr Eglwys yng Nghymru. Heddiw, fodd bynnag, mae amrywiaeth mawr o ddeunydd litwrgaidd yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru – o Lyfrau Boreol a Hwyrol Weddi 1984 a 2009 a gynhyrchwyd gan yr Eglwys yng Nghymru, i *Daily Prayer* Eglwys Loegr (2005), i ddeunydd a gynhyrchwyd gan Gymuned Iona, etc. Mae'r ystod hon o ddeunydd litwrgaidd yn caniatáu ar gyfer mwy o amrywiaeth wrth addoli a mwy o allu i addasu i gyd-destunau ac amgylchiadau penodol. Ond gall hefyd arwain at lai o gynefindra â phatrwm penodol o addoli a mwy o ddryswch ynglŷn â sut i lunio gwasanaeth.

Er bod capel Athrofa Padarn Sant yn lle gwych i arbrofi gydag adnoddau litwrgaidd ac i ddysgu sut i lunio gwasanaeth sy'n rhoi sylw i gyd-destun a chynulleidfa benodol, mae hefyd yn ddefnyddiol cael fframwaith cyffredin y gallwn oll ei ddeall yn hawdd ac y gallwn arbrofi drwyddo wedyn. Gan hynny rydym yn argymell y dylai'r ymgeiswyr ddysgu byw'n gyffyrddus yng ngwasanaethau Gweddi Ddyddiol diweddaraf yn yr Eglwys yng Nghymru (2009) .

Gallwch weld strwythur cyffredinol y foreol a'r hwyrol weddi ar tt. 12-13 yn llyfr Gweddi Ddyddiol 2009 (y llyfr gwyrdd), gyda nodiadau ychwanegol ar tt. 14-17.

Mae ar gael ar-lein yma:

https://s3.amazonaws.com/cinw/wp-content/uploads/2014/08/Daily-Prayer2009.pdf

Mae strwythur cyffredinol y foreol weddi fel a ganlyn:

I. **Y Rhagarweiniad**
   - Fe *gewch* ddechrau ag **(A) Gweddïau o Edifeirwch** (tt. 18-21), ond does dim angen cyffes/gollyngdod ffurfiol ar gyfer pob gwasanaeth boreol/hwyrol weddi, ac mewn gwirionedd byddai'n anarferol mewn gwasanaeth yn ystod yr wythnos. Cewch benderfynu hefyd beidio â chynnwys Gweddïau o Edifeirwch, er enghraifft, os oes cyffes/gollyngdod yn cael ei gynnwys mewn gwasanaeth arall y diwrnod hwnnw.
   - Dewiswch *un o'r Rhagarweiniadau a ganlyn* i'r foreol weddi: **(B) Gwersiglau ac Ymatebion Agoriadol a Gwahoddgan** (tt. 20-23)**, (C) Moliant Boreol i Grist** (22-25) neu **(D) Rhagarweiniad Syml i'r Foreol Weddi** (24-27).

II. **Gweinidogaeth y Gair**
   - Os ydych yn defnyddio dau ddarlleniad, defnyddiwch *Batrwm 1* ar tt. 26-31.

- Os ydych yn defnyddio un darlleniad, defnyddiwch *Batrwm 2* ar tt. 32-35.
- Mae'r salmau i'w cael ar tt. 304-649.
- Gall y Credo ddilyn y darlleniad(au), ond does dim angen ei gynnwys heblaw ar y Sul a Gwyliau penodol.

III. Y Gweddïau

- Mae gweddïau addas i'w cael yn *Atodiad V* (tt. 216-33) neu gallwch weddïo o'r frest.
- Daw'r gweddïau i ben gyda Gweddi'r Arglwydd ac wedyn y colectau (gweddïau cyffredinol byr).
- Yn aml dywedir colect yr wythnos honno/y diwrnod hwnnw, wedyn y colect am dangnefedd a/neu'r trydydd colect ar tt. 64-67. Ceir colectau penodol y dydd/wythnos yn *Y Calendr Newydd a'r Colectau* (2003).

IV. Y Diweddglo

- Ceir geiriau anfon allan tymhorol yn *Atodiad II* (tt. 76-137), neu gallech orffen ag un o'r dewisiadau anfon allan ar tt. 38-41 (ar y cyfan, mae'r dewisiadau anfon allan ar tt. 42-43 wedi'u cadw ar gyfer offeiriadon).

**** Nodyn ar antiffonau/cantiglau:*** yn gyffredinol, bydd y foreol weddi yn cynnwys un neu fwy o gantiglau, ('caneuon' byr a gymerwyd o'r ysgrythur fel arfer). Ceir casgliad o gantiglau yn Atodiad III ar tt. 138-213. Wrth ddefnyddio antiffon (brawddeg fer a ddywedir cyn ac ar ôl y cantigl), y drefn yw: Antiffon, Cantigl, Mawlgan (Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab...), Antiffon.

***** Nodyn ar ddeunydd tymhorol****:* Ceir deunydd tymhorol (i'w ddefnyddio yn ystod yr Adfent, y Nadolig, yr Ystwyll, etc.) yn *Atodiad II* (tt. 76-137). Mae hwn yn cynnwys:

- ***Brawddeg*** agoriadol i ddechrau'r gwasanaeth
- ***Gweddi Agoriadol o Fendith*** i'w chynnwys yn y **Rhagarweiniad**
- ***Antiffonau*** a ***chantiglau*** yr argymhellir eu defnyddio ar ddiwedd y **Rhagarweiniad** yn union cyn **Gweinidogaeth y Gair**
- Yr **anfon allan** i gloi

Amser ar gyfer enghreifftiau! Mae'r canlynol yn wasanaeth boreol weddi i'w ddefnyddio yn ystod Adfent:

Enghraifft 1

Y RHAGARWEINIAD *[Sefyll]*

"Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos."
Mathew 3:2

Brawddeg agoriadol dymhorol a gymerwyd o'r deunydd tymorol yn Atodiad II ar t. 76.

Arglwydd, agor ein gwefusau,
A'n genau a fynega dy foliant.

(B) Gwersiglau ac Ymatebion agoriadol

Canwn i ti, O Arglwydd, a bendithiwn dy enw,

A dywedwn am dy iachawdwriaeth o ddydd i ddydd.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr, ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.

Addolwch yr Arglwydd.
I'w enw ef y bo'r mawl.

Bendigedig wyt ti, Dduw Goruchaf, Arglwydd pob peth!
O'th dyner drugaredd
y tyr arnom y wawrddydd oddi uchod,
i chwalu gweddillion cysgodion y nos.
A ninnau'n disgwyl dy ddyfod i'n plith,
agor ein llygaid i ganfod dy bresenoldeb
a chryfha ein dwylo i wneud dy ewyllys,
fel y gall y byd dy foliannu'n llawen.
Bendigedig fyddo Duw am byth.

Gweddi agoriadol o fendith a gymerwyd o'r deunydd tymorol yn Atodiad II ar t. 76.

Ant: Fe wêl holl gyrrau'r ddaear
iachawdwriaeth ein Duw ni.

Antiffon/cantigl Adfent a gymewyd o'r deunydd tymorol yn Atodiad II ar tt. 76, 80.

1 Mor weddaidd ar y mynyddoedd:
yw traed y negesydd sy'n cyhoeddi heddwch,

2 Yn datgan daioni yn cyhoeddi iachawdwriaeth:
sy'n dweud wrth Seion "Dy Dduw sy'n teyrnasu."

3 Clyw, y mae dy wylwyr yn codi eu llais:
ac yn bloeddio'n llawen gyda'i gilydd;

4 Â'u llygaid eu hunain y gwelant:
yr Arglwydd yn dychwelyd i Seion.

5 Bloeddiwch, cydganwch, chwi adfeilion Jerwsalem:
oherwydd tosturiodd yr Arglwydd wrth ei bobl.

6 Dinoethodd yr Arglwydd ei fraich sanctaidd:
yng ngŵydd yr holl genhedloedd,

7 Ac fe wêl holl gyrrau'r ddaear:
iachawdwriaeth ein Duw ni.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr, ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.

Ant: Fe wêl holl gyrrau'r ddaear
iachawdwriaeth ein Duw ni.

GWEINIDOGAETH Y GAIR

Patrwm 1, â dau ddarlleniad

Salm
Dilynir pob salm gan: *[Eistedd]*
Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab:
ac / i'r– / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau,
y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad:
yn oes / oesoedd. / A–/men.

Ceir y salmau ar tt. 304-649

Darlleniad o'r Hen Destament

Cyn y darlleniad:
Darlleniad o ...
Ar ôl y darlleniad
Dyma ddiwedd y darlleniad o'r Hen Destament.

Distawrwydd

Cantigl yr Efengyl *[Sefyll]*

Ant: Gwyn eu byd y rhai sydd wedi eu gwahodd
i wledd briodas yr Oen.

Antiffon Adfent a gymerwyd o Atodiad II

Bendigedig fyddo / Arglwydd • Dduw / Israel :
am iddo ymweld â'i / bobl a'u / prynu i / ryddid;

Cododd waredigaeth / gadarn • i / ni :
yn / nhŷ – / Dafydd • ei / was.

Fel y llefarodd trwy enau ei bro/ffwydi / sanctaidd :
yn yr / oesoedd / a – / fu.

Gwaredigaeth / rhag • ein ge/lynion :
ac o afael / pawb • sydd yn / ein ca/sáu;

Fel hyn y cymerodd drugaredd / ar ein • hyn/afiaid :
a / chofio • ei gy/famod / sanctaidd,

Y llw a dyngodd wrth / Abraham • ein / tad :
y rhoddai inni gael ein / hachub • o / afael • ge/lynion,

A'i addoli yn ddi-ofn mewn sancteiddrwydd / a chyf/iawnder :
ger ei fron ef / holl – / ddyddiau • ein / bywyd.

Y Benedictus*, cân o ddiolch gan Sachareias (Luc 1:68-79), a ddefnyddir yn gyffredinol yn Gantigl yr Efengyl yn y foreol weddi*

A thithau, fy mhlentyn, gelwir di yn / broffwyd • y Go/ruchaf :
oherwydd byddi'n cerdded o flaen y Arglwydd i / bara/toi ei / lwybrau,

I roi i'w bobl wybodaeth am / ware/digaeth :
trwy fa/ddeuant / eu pe/chodau.

Hyn yw trugaredd / calon • ein / Duw :
fe ddaw â'r wawrddydd / oddi / uchod • i'n / plith,

I lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch / cysgod / angau :
a chyfeirio ein / traed i / ffordd tang/nefedd.

Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab:
ac / i'r– / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau,
y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad:
yn oes / oesoedd. / A–/men.

Ant: Gwyn eu byd y rhai sydd wedi eu gwahodd
i wledd briodas yr Oen.

Darlleniad o'r Testament Newydd *[Eistedd]*
Cyn y darlleniad:
Darlleniad o ...

Ar ôl y darlleniad
Dyma ddiwedd y darlleniad o'r Testament Newydd.

Distawrwydd

Y GWEDDÏAU *[Eistedd/penlinio]*

Ymbiliau
Ymateb:
Arglwydd, yn dy drugaredd, NEU Arglwydd, clyw ni
gwrando ein gweddi. **Yn rasol, clyw ni, O Arglwydd.**

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn yn eofn:
Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Colect y Sul Cyntaf yn Adfent

Colect y Sul Cyntaf yn Adfent, a gymerwyd o'r Calendr Newydd a'r Colectau *(2003)*

Hollalluog Dduw, dyro inni ras
i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch,
ac i wisgo arfau'r goleuni,
yn awr yn y bywyd marwol hwn,
a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist pan ymwelodd â ni mewn gostyngeiddrwydd mawr;
fel y bo i ni yn y dydd diwethaf, pan ddaw drachefn yn ei ogoneddus fawredd
i farnu'r byw a'r meirw, gyfodi i'r bywyd anfarwol;
trwyddo ef sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yr awr hon ac yn dragywydd. **Amen**.

Y colect am dangnefedd:

O Dduw, awdur tangnefedd a charwr cytundeb,
y mae dy adnabod di yn fywyd tragwyddol,
a'th wasanaethu yn rhyddid perffaith:
amddiffyn ni rhag holl ymosodiadau ein gelynion,
fel, a ninnau'n llwyr ymddiried yn dy nodded,
nad ofnwn allu neb o'n gwrthwynebwyr;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen**.

Colect am ras:

Dragwyddol Dduw a Thad,
y crëwyd ni trwy dy allu
a'n prynu trwy dy gariad,
tywys a nertha ni â'th Ysbryd,
fel y gallwn ein rhoi ein hunain i ti
trwy garu a gwasanaethu'n gilydd;
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y DIWEDDGLO

[Sefyll]

Yr anfon allan yn ystod Adfent a gymerwyd o'r deunydd tymhorol yn Atodiad II ar t. 80.

Bydded i Dduw Dad,
a garodd y byd gymaint nes iddo anfon ei unig Fab,
roddi i chwi ras i baratoi at fywyd tragwyddol. **Amen**.

Bydded i Dduw Fab,
sy'n dod atom yn Waredwr ac yn Farnwr,
ddangos i chwi'r llwybr o dywyllwch i oleuni. **Amen**.

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,
trwy'r hwn y beichiogodd y Forwyn Fair ar Grist,
eich cynorthwyo i ddwyn ffrwythau sancteiddrwydd. **Amen**.

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Bendithiwn yr Arglwydd.
I Dduw y bo'r diolch.

Dyma esboniad o sut i lywio drwy'r strwythur symlach, gydag enghraifft ymarferol o foreol weddi yn ystod amser cyffredin.

Enghraifft 2

Dechrau gyda'r rhagarweiniad syml ar t. 24/25
Arglwydd agor ein gwefusau etc…… ac wedyn dros y tudalen i t. 26/27.
Wedyn Patrwm 2 gydag un darlleniad t.32/33
Salm
Darlleniad (un yn unig, efallai y TN?)
Cantigl yr Efengyl t. 32/33 a thros y tudalen
Dim datganiad ffydd (oni bai ei bod yn Ŵyl) (t. 34/35)
Gweddïau t. 36/37

> *Mae lle yn y gweddïau i ddilyn strwythur ymbiliau neu i ddefnyddio arddull colect / hoff weddïau, gweddi o'r frest neu hyd yn oed weddi ddistaw neu unrhyw fath greadigol arall o weddïo am y diwrnod o'ch blaen, y byd a'r Eglwys.*

Gweddi'r Arglwydd (ar t. 36/37 o hyd)
Y Colectau t. 38/39

> *Yn rhyfedd iawn does dim gofyn defnyddio colect y dydd oni bai ei bod yn ŵyl a'n bod yn defnyddio un neu ddwy o'r gweddïau ar y tudalen hwn.*

Wedyn diweddglo ar t. 38/39 ymlaen.

Dyma fersiwn o'r uchod yn llawn:

Rhagarweiniad Syml i'r Foreol Weddi

> Arglwydd, agor ein gwefusau,
> **A'n genau a fynega dy foliant.**
>
> **Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,**
> **ac i'r Ysbryd Glân;**
> **fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,**
> **ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

Gweddi/myfyrdod distaw ar y diwrnod sy'n dod.

Yn gynnar yn y bore
daw fy ngweddi atat.
Arglwydd, trugarha.
Arglwydd, trugarha.

Yr wyt yn llefaru yn fy nghalon ac yn dweud
"Ceisia fy wyneb";
am hynny ceisiaf dy wyneb, O Arglwydd.
Crist, trugarha.
Crist, trugarha.

Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennyt,
a myfyrdod fy nghalon yn gymeradwy i ti,
O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr.
Arglwydd, trugarha.
Arglwydd, trugarha.

Salm yn gorffen â

Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab:
ac / i'r– / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau,
y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad:
yn oes / oesoedd. / A–/men.

Darlleniad

Cyn y darlleniad
Darlleniad o ...

Ar ôl y darlleniad
Dyma air yr Arglwydd.
I Dduw y bo'r diolch.

Distawrwydd

Cantigl yr Efengyl: *Benedictus Dominus Deus Israel* *[Sefyll]*

1 Bendigedig fyddo / Arglwydd • Dduw / Israel :
am iddo ymweld â'i / bobl a'u / prynu • i / ryddid;

2 Cododd waredigaeth / gadarn • i / ni :
yn / nhŷ – / Dafydd • ei / was.

3 Fel y llefarodd trwy enau ei bro/ffwydi / sanctaidd :
yn yr / oesoedd / a – / fu.
Gwaredigaeth / rhag • ein ge/lynion :
ac o afael / pawb • sydd yn / ein ca/sáu;

4 Fel hyn y cymerodd drugaredd / ar ein • hyn/afiaid :
a / chofio • ei gy/famod / sanctaidd,

5 Y llw a dyngodd wrth / Abraham • ein / tad :
y rhoddai inni gael ein / hachub • o / afael • ge/lynion,

6 A'i addoli yn ddi-ofn mewn sancteiddrwydd / a chyf/iawnder :
ger ei fron ef / holl – / ddyddiau • ein / bywyd.

7 A thithau, fy mhlentyn, gelwir di yn / broffwyd • y Go/ruchaf :
oherwydd byddi'n cerdded o flaen yr Arglwydd i / bara/toi ei / lwybrau,

8 I roi i'w bobl wybodaeth am / ware/digaeth :
trwy fa/ddeuant / eu pe/chodau.

9 Hyn yw trugaredd / calon • ein / Duw :
fe ddaw â'r wawrddydd / oddi / uchod • i'n / plith,

10 I lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch / cysgod / angau :
a chyfeirio ein / traed i / ffordd tang/nefedd.

Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab:
ac / i'r– / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau,
y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad:
yn oes / oesoedd. / A–/men.

Y GWEDDÏAU

Mae rhyddid ar gael yma, er bod y cyfarwyddiadau yn dweud:

Yn y Foreol Weddi, offrymir gweddïau dros y dydd a'i orchwylion, dros y byd a'i anghenion a thros yr Eglwys a'i bywyd.
Defnyddir y gweddïau yn Atodiad v, y Litani (Atodiad vi), neu weddïau addas eraill.

Gweddi'r Arglwydd, yn dilyn y geiriau:

Gweddïwn yn hyderus ar y Tad:
Ein Tad yr wyt yn y nefoedd …

Y trydydd colect, am ras.

O Arglwydd a nefol Dad, Dduw hollalluog a thragwyddol,
diolchwn iti am ein dwyn yn ddiogel
i ddechrau'r dydd newydd hwn:
amddiffyn ni â'th gadarn allu
fel y'n cedwir ni yn rhydd rhag pob pechod
ac yn ddiogel rhag pob perygl;
a galluoga ni ym mhob peth
i wneud yn unig yr hyn sydd iawn yn dy olwg di;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen**.

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Bendithiwn yr Arglwydd.
I Dduw y bo'r diolch.

Gall y cyfarwyddiadau helpu

Un nodyn olaf ar cyfarwyddiadau – mae llyfrau gweddi'r Eglwys yng Nghymru yn cynnwys cyfarwyddiadau llawn iawn ('rubrics') cyn pob trefn gwasanaeth a thrwy'r gwasanaeth. Fel arfer mae'r rhain mewn llythrennau italig. Os byddwch yn ymgyfarwyddo â'r rhain, byddant yn eich helpu i ddeall beth 'ddylai' ddigwydd ar wahanol adegau yn y gwasanaeth, hyd yn oed o ran sut i gyflwyno darlleniadau ac arwain gweddïau, a bydd hyn yn eich helpu i fagu hyder. Mae unrhyw beth y tu allan i'r rhuddellau yn y llyfrau gweddi yn arferiad neu draddodiad lleol, hyd yn oed os gall eglwysi honni mai'r ffordd gywir i wneud x yw.....

Bydd gwybod y cyfarwyddiadau yn eich helpu i lywio eich ffordd tuag at roi gwasanaethau at ei gilydd a deall pa 'gamau' sydd i fod i wella'r gwasanaeth. Yn yr un modd, mae gosod cyfarwyddiadau mewn taflen gwasanaeth pan fyddwch yn disgwyl i'ch cynulleidfa wneud rhywbeth yn eu helpu i deimlo'n gyffyrddus a hyderus ac yna gallant ymlacio a chanolbwyntio ar addoli.

A chithau'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth, hoffem eich annog i brynu'ch copïau eich hunain o'r llyfrau gwasanaeth (neu drefnu eich bod yn cael gweld eich copïau eich hunain). O ddod yn gyfarwydd â'r llyfrau gwasanaeth byddwch yn magu hyder y byddwch chi, wrth annog a hyfforddi pobl eraill i ddarllen yr ysgrythur, arwain yr ymbiliau ac agweddau eraill ar arwain addoliadau, o leiaf yn gwybod beth sydd i fod i ddigwydd a pha bryd!

Adnoddau

Gellir dod o hyd i adnoddau Addoli ar **dudalen Adnoddau Addoli ar Moodle.** Mae Llyfrgell Athrofa Padarn Sant hefyd yn cynnwys nifer o adnoddau defnyddiol; mae croeso ichi gysylltu â'r Llyfrgellydd, Anna Williams, neu'r cynorthwyydd adnoddau dysgu, Holly Terrington, i gael cymorth.

Addoli yn y Gymuned Llawn-amser

Trefnu Addoliad

Mae'r gymuned o ymgeiswyr amser llawn yn cael eu rhannu'n grwpiau addoli. Mae pob grŵp yn gyfrifol am bob gwasanaeth yn ystod unrhyw wythnos. Yr wythnos cyn eich wythnos addoli chi, bydd y grŵp cyfan yn cyfarfod ag aelod o'r staff i feddwl a siarad gyda'i gilydd am addoli yn gyffredinol, ac i ddylunio addoliad yr wythnos ganlynol. Nid dim ond mater o rannu'r gwasanaethau rhwng pobl yw hyn. Wrth gwrs, yn y pen draw fe fydd rhaid i rywun arwain gwasanaeth, a rhaid i eraill ddarllen etc, ond mae hyn yn golygu cydweithio. Efallai y byddwch yn meddwl am thema i'r wythnos, efallai y byddwch am ystyried cydbwysedd yr wythnos, byddwch yn dymuno meddwl ble mae'r gymuned wedi cyrraedd a beth fydd yn digwydd yr wythnos honno. Bydd angen hefyd ichi feddwl pwy fydd yn sicrhau bod y capel wedi'i osod ar gyfer y gwasanaethau, a meddwl am y gerddoriaeth. Mae'n bwysig gohebu â cherddorion (fel arfer aelod o'r gymuned amser llawn) ymhell cyn y gwasanaeth er mwyn sicrhau proses esmwyth a chydweithredol.

Yn ystod wythnos eich addoliad chi, bydd angen i chi gydweithio. Efallai y bydd yn ddefnyddiol ichi gyfarfod ar ddydd Mercher eich wythnos i gael gwiriad terfynol. Mae hefyd yn bwysig gweddïo gyda'ch gilydd gydol yr wythnos (ychydig cyn y gwasanaethau efallai).

Yn yr wythnos ganlynol bydd y grŵp cyfan yn cyfarfod eto gyda'r aelod o'r staff, ar ddydd Mercher, i gael adborth, a hefyd i fyfyrio'n fwy cyffredinol ar yr wythnos ac i feddwl sut y gellid bwrw ymlaen â phethau yn y dyfodol.

Mae'r tiwtor yno i'ch helpu i weithio gyda'ch gilydd, i herio, ysgogi a chefnogi, i gyflenwi adnoddau a syniadau, ac i roi adborth gonest, adeiladol.

Mae'r rota'n cael ei drefnu fel eich bod yn cael eich cefnogi gan aelod gwahanol o'r tîm addoli ar yr adegau gwahanol y bydd eich grŵp chi'n arwain yr addoli, fel eich bod yn clywed lleisiau gwahanol ac yn elwa ar ddoethineb pobl wahanol.

Ein Patrwm Addoli

Bydd ein patrwm addoli fel cymuned yn amrywio ac yn datblygu drwy'r flwyddyn.

Yn y boreau (dydd Iau a dydd Gwener) ceisiwn barhau i ddefnyddio darlleniadau'r llithiadur ar gyfer boreol weddi. Mae hyn yn caniatáu inni elwa drwy'r darllen parhaus ar yr ysgrythur y mae'r llithiadur yn ei gynnig ar draws yr wythnos ac ar draws yr wythnosau.

Yn ein gwasanaethau yn ystod y dydd a gyda'r nos rydym yn fwy hyblyg ynglŷn â themâu a darlleniadau. Oherwydd amrywiaeth ein 'deiet' yn ystod y dydd a gyda'r nos, ychydig iawn sydd i'w gyflawni drwy ddefnyddio darlleniadau'r llithiadur ar gyfer yr hwyrol weddi gan na fyddem yn cael darlleniadau parhaus o'r ysgrythur – byddem yn eu gweld yn bur wasgaredig. Mae hyn hefyd yn caniatáu mwy o le ar gyfer arloesi, addoli pob-oed a chynllunio addoliad yn unswydd ar gyfer yr achlysur.

Er mwyn magu hyder yn eich defnydd o litwrgi yr Eglwys yng Nghymru, rydym yn argymell dwy wasanaeth bod dwy wasanaeth yr wythnos yn gwneud defnydd o'r deunydd *Daily Office 2009*.

Patrwm yr addoliad:

Mercher 11.45am – 1pm Cymun Cymunedol

Dyma brif grynhoad a gwasanaeth ein hwythnos gyda'n gilydd, ac fel arfer mae'n cynnwys cerddoriaeth, pregeth (gan aelod o'r staff neu ymwelydd) ac yn gorffen â newyddion a hysbysiadau. Aelod o staff fydd yn llywyddu fel rheol.

Mercher 5.15 – 6pm Addoli Pob-oed

Gobeithio y bydd plant ein cymuned yn ymuno â ni yn y gwasanaeth hwn. Gallai fod yn Gymun weithiau, ond nid bob amser. Fe'i dilynir gan swper 'noson deuluol'.

Iau 8.00 – 8.30 am Boreol Weddi

Weithiau gallai hyn gynnwys Cymun tawel yn null Cymun plwyf 'dyddiol/canol wythnos' (o'i gyferbynnu ag arddull Cymun dydd Sul gwasanaeth 11am dydd Mercher).

Iau 5.30 – 6 pm Addoliad yr Hwyr

Gwasanaeth mwy distaw a myfyrgar ar gyfer hwyrol weddi/addoli. Gall fod ar ffurf Hwyrol Weddi ar gân, Taize, gwasanaeth amgen o addoliad a mawl ayyb.

Gwener 7.45 – 8.15am Boreol Weddi

Yn gyffredinol, dylai hyn gynnwys myfyrdod byr (2-3 munud) gan un o'r ymgeiswyr – sef ffurf sy'n wahanol i'r bregeth, ond sy'n gallu bod yn werthfawr iawn.

Gwener 11.30 – 12.00pm Addoliad Cloi

Mae'r gwasanaeth byr hwn yn dod â'n hwythnos gyda'n gilydd i ben. Mae'n gyfle i weddïo gyda'n gilydd, myfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd dros y dyddiau diwethaf, a 'chanu'n iach'.

Mae'n holl wasanaethau yn digwydd fel rheol yn y Capel, ond does dim byd i atal grŵp rhag arbrofi ynglŷn â lleoliadau, na sut mae'r Capel wedi'i osod. Mae gan le, gofod a phensaernïaeth ddylanwad grymus ar ein haddoli.

Presenoldeb

Dim ond am ddau ddiwrnod lawn yn yr wythnos yr ydyn ni gyda'n gilydd fel cymuned. **Felly, disgwylir i bob ymgeisydd ddod i bob addoliad yn ein patrwm dydd Mercher – Gwener gan gymryd rhan lawn ynddo.** 'Gras nid deddf' – felly dydyn ni ddim yn cadw cofrestr, yn ceryddu pobl, nac yn dymuno i bobl deimlo'n lletchwith os oes addoliad na allan nhw ddod iddo yn eithriadol iawn.

Er hynny, byddai'n fater difrifol pe bai ymgeisydd yn dechrau tynnu'n ôl o'n bywyd cymunedol gan ymgilio'n rheolaidd o ran benodol o'n haddoliad neu'n mynd yn ddi-hid. Os byddwch yn gweld bod gennych anawsterau o ran cymryd rhan lawn yn ein haddoli, siaradwch â Jordan.

Bydd absenoldebau cyson yn cael eu trafod gyda chi ac efallai y bydd angen eu nodi yn eich adroddiad terfynol i'r esgob, yn ogystal â phob absenoldeb diawdurdod.

Defnyddio'r Capel

Mae'r capel wedi'i neilltuo'n fan i ymgeiswyr Athrofa Padarn Sant a'u teulu agos weddïo ac addoli. Mae ar gael 24/7 ar gyfer gweddïo ac addoli. Mae'n fan i gysylltu â Duw yn unigol ac i dyfu gyda'n gilydd fel cymuned yng Nghrist. Mae'r gofod yno *i chi*; fe'ch gwahoddir yn gynnes i wneud defnydd creadigol o'r capel fel y gwelwch yn dda – myfyrdod distaw, grwpiau gweddi, ymarfer canu/litwrgi, canmol ac addoli cymunedol, etc.

Ar adegau gall y capel gael ei ddefnyddio gan bobl eraill fel rhan o'n gweinidogaeth croeso a lletygarwch. Byddwn yn ceisio rhoi hysbysiad clir mewn da bryd i nodi hyn, fel eich bod yn gwybod ymlaen llaw os na fydd y capel ar gael i chi ei ddefnyddio at weddïo ac addoli am unrhyw reswm.

Mae'n amlwg bod angen inni rannu'r lle hwn gyda'n gilydd, er na ddylai hynny beri anhawster inni yn ymarferol. Rydym i gyd am gefnogi ein gilydd yn ein twf mewn gweddi ac ysbrydolrwydd a gallwn yn hawdd fod yn sensitif i bobl eraill sy'n defnyddio'r capel pan fyddwn ninnau hefyd yn dymuno gwneud hynny. Un o'r syniadau defnyddiol yw y gallwn ddefnyddio'r gofod fel y dymunwn pan fyddwn yno – gorwedd ar y llawr mewn myfyrdod, chwarae cerddoriaeth uchel, llafarganu etc. – ond na ddylen ni wneud dim i ddominyddu neu newid y lle i bobl eraill pan na fyddwn ni yno.

Mae rhan o hyn hefyd yn golygu nad yw'n briodol i bobl nad ydyn nhw'n aelodau staff neu'n ymgeiswyr Athrofa Padarn Sant a'u teulu agos ddefnyddio'r capel, ac eithrio ar gyfer gwasanaethau a drefnir yn swyddogol y maent yn cael eu gwahodd iddynt. Pe bai ymgeiswyr yn defnyddio'r capel ar gyfer digwyddiadau yn cynnwys pobl o'r tu allan, byddai hynny'n newid natur ac argaeledd y lle i eraill. Os oes yna bethau penodol yr hoffech eu trefnu gan gynnwys

pobl o'r tu allan i'r Athrofa, mynnwch air â Jordan, ond y rhagdybiaeth yw bod y capel wedi'i neilltuo fel man gweddïo ac addoli i ymgeiswyr Athrofa Padarn Sant a'u teulu agos.

Gweddïo ac addoli sydd wrth wraidd ein ffurfiant a'n cymuned. Nod y polisi hwn yw sicrhau eu bod ar gael bob amser ac yn agored i bob un ohonom.

Hawlfraint ar gyfer y Capel a Chyfnodau Preswyl

Mae'n bwysig bod yr holl gerddoriaeth a ddefnyddir Gan Athrofa Padarn Sant yn cael ei hadrodd i Christian Copyright Licensing Inrenational (CCLI) er mwyn sicrhau bod breindaliadau yn cael eu dosbarthu yn gywir ac yn deg i'r cyfansoddwyr a chyhoeddwyr. Am y rheswm hon, mae gan Athrofa Padarn Sant nifer o drwyddedau gyda CCLI. Y drwydded fwyaf perthnasol yw'r **Drwydded Hawlfraint Eglwysi (Church Copyright License),** sy'n caniatáu ni i gyflwyno neu argraffu geiriau neu gerddoriaeth caneuon addoli ac emynau (nid oes angen adrodd pan defnyddir llyfrau emynau) Er mwyn adrodd y gerddoriaeth wedi ei gyflwyno neu ei hargraffu yn ystod addoliad, mae angen i ymgeiswyr gwblhau y **Ffurflen Adrodd CCLI** a'i gyflwyno i'r cynrychiolydd addoli. Bydd y cynrychiolydd addoli yna'n cwblhau'r broses adrodd priodol ar wefan y CCLI. I ymgeiswyr llawn-amser bydd **blwch Adrodd CCLI** ar gael yn y festri. Ar gyfer cyfnodau preswyl e-bostiwch y cynrychiolydd addoli yn uniongyrchol.

CCLI REPORTING

CCLI relies on this report to distribute the royalty payments fairly and accurately to the songwriters and publishers that our licenses permit us to legally copy or reproduce.

It is the responsibility of those reproducing the lyrics to complete this form.

Please include hymns/worship songs when lyrics are reproduces for an act of worship. This includes printed service sheets and digital projections.

You do not need to include items when published hymn books have been used.

Your Name	
Date of Worship	
Time of Worship	
Approx. Attendance	

	Title	Author	Print / Digital
Example	*Shine Jesus Shine*	*Graham Kendrick*	*Digital*
1			
2			
3			
4			
5			
6			
7			
8			
9			
10			

Please return completed forms to the "CCLI reporting" box in the vestry.

Official use

Reported by:

Date reported: